



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Mynach
Pontarfynach
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 4QZ**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/06/2014

Cyd-destun

Ysgol gynradd wledig yw Ysgol Mynach. Fe'i lleolir ym mhentref Pontarfynach ger Aberystwyth, Ceredigion. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig o'i chwmpas.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng pedair ac 11 oed. Derbynnir plant i'r ysgol yn amser llawn ar ddechrau'r tymor cyn iddynt gyrraedd eu penblwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 28 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu o fewn dau ddsbarth. Y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd addysgol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion gyda phob pwnc yn cael ei addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae unedau o waith rhai o'r pynciau yn cael eu cyflwyno trwy'r Saesneg gyda'r bwriad o sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog yn gadael yr ysgol.

Mae tua hanner y disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Nid oes disgybl sydd o gefndir ethnig lleiafrifol ac ni chaiff unrhyw ddisgybl gymorth gyda Chymraeg na Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae tua 7% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r canran sirol a chanran Cymru. Mae 11% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn sylweddol is na'r ffigwr cenedlaethol. Ni chafodd unrhyw ddisgybl ei wahardd yn ystod y flwyddyn addysgol ddiwethaf.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ebrill 2011. Mae hefyd yn bennaeth ar ddwy ysgol gyfagos sy'n cydweithio o fewn partneriaeth. Yn ogystal â'r pennaeth, mae pennaeth cynorthwyol apwyntiwyd yn Chwefror 2012, un athrawes amser llawn ac un athrawes rhan amser. Cafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf yn 2008.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Mynach yn 2013-2014 yw £5,001. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £9,062 a'r lleiafswm yw £3,119. Mae Ysgol Gynradd Mynach yn y 18fed safle o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol Mynach yn dda oherwydd:

- bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwersi ac yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod safonau medrau allweddol y disgyblion yn uchel a bron pob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- bod safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth yr holl ddisgyblion yn ardderchog wrth iddynt ddangos cwrteisi, gofal a pharch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr;
- bod cyfraniad y disgyblion tuag at ymestyn eu diddordeb, eu hannibyniaeth a'u mwynhad ym mywyd a gwaith yr ysgol yn rhagorol;
- bod safon yr addysgu yn gyson dda a phrofiadau dysgu cyfoethog ar gael i'r holl ddisgyblion; a
- bod gan yr ysgol ethos teuluol, gofalgarn a chroesawgar lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn rhagorol oherwydd:

- bod y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus;
- bod gweledigaeth glir y pennaeth a'i disgwyliadau uchel yn cael eu hyrwyddo'n llwyddiannus gan yr holl staff, y llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned;
- bod y pennaeth a phenaethiaid cynorthwyol y tair ysgol sy'n rhan o'r bartneriaeth yn cydweithio'n effeithiol iawn fel cymuned ddysgu broffesiynol ymroddedig sy'n cyfrannu'n eithriadol at welliannau yn Ysgol Mynach;
- bod staff y tair ysgol yn flaenllaw yn y broses o gyd-gynllunio ac yn y trefniadau cyd-gymedroli a chyd-safoni ac, o ganlyniad, mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa o brofiadau dychmygus ac ysgogol;
- bod y corff llywodraethol yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cyfeiriad strategol i'r ysgol ac yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad;
- bod gan yr ysgol systemau trylwyr a chadarn ar gyfer hunanarfarnu a chynlluniau clir ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau;
- bod partneriaethau strategol effeithiol iawn yn gwneud cyfraniad eithriadol at godi safonau a chefnogi lles bron pob disgybl; a
- bod ymroddiad yr ysgol i sicrhau llwyddiant y bartneriaeth yn arloesol ac wedi ei rannu gydag ysgolion tebyg.

Argymhellion

- A1 Gwella llawysgrifen a chyflwyniad disgyblion cyfnod allweddol 2
- A2 Cyfoethogi profiadau dysgu ac ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang
- A3 Sicrhau bod adroddiadau i rieni yng nghyfnod allweddol 2 yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion adrodd

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion Ysgol Mynach ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan y rhan fwyaf ohonynt fedrau sy'n briodol i'w hoed, ac eithrio yn y Gymraeg ble mae'r iaith yn newydd i tua hanner ohonynt. Mae bron pob un ohonynt, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cymorth ychwanegol a disgyblion o allu uwch, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae bron bob un ohonynt yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r dosbarth, yn canolbwyntio ac yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol.

Mae'r rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o iaith, llythrennedd a'u medrau cyfathrebu yn y Gymraeg. Mae safonau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Gymraeg yn gadarn. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae medrau gwrando'r holl ddisgyblion yn dda iawn gyda bron pob disgybl yn siarad yn gynyddol gywir a hyderus erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Maent yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau'r athrawon ac yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau. Maent yn defnyddio geirfa briodol wrth sgwrsio am eu gwaith ynghyd â materion eraill sydd o ddiddordeb iddynt. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn medru trawsieithu'n effeithiol.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Mae bron pob un o ddisgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn darllen yn ystyrlon a chyda rhuglder a mynegiant clir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda rhuglder, mynegiant a dealltwriaeth dda. Defnyddiant eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth a'i chyflwyno mewn modd diddorol.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae rhan fwyaf disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos datblygiad parhaus o ran medrau ysgrifennu cynnar. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n greadigol ac yn annibynnol yn y Gymraeg wrth ddisgrifio gwlad ffantasi. Maent yn defnyddio geirfa addas a diddorol, gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau ysgrifennu'n at wahanol ddibenion yn effeithiol. Maent yn defnyddio paragraffau ac yn atalnodi yn gywir yn y ddwy iaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ysgrifennu'n estynedig i safon uchel yn y ddwy iaith mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gwna'r disgyblion hŷn ddefnydd da o'u medrau ysgrifennu ffurfiol i ysgrifennu llythyr at y cyngor yn sgil effaith y stormydd diweddar ar Aberystwyth. Er hyn, nid yw safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn gyson dda.

Mae medrau rhifedd disgyblion yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau rhifedd a'u medrau meddwl yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o strategaethau rhifedd gyda'r rhan fwyaf yn medru cymhwyso'r wybodaeth hon ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Maent yn defnyddio eu medrau datrys problemau yn fedrus, er enghraifft wrth gynllunio cartref i'r ieir.

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a all effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol o'i gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r nesaf.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant disgwyliedig yn gyson uchel. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y 25% uchaf yn ystod y cyfnod. Mae perfformiad disgyblion mwy abl ar ddeilliant 6 hefyd yn y 25% uchaf o blith ysgolion tebyg yn y ddau faes dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn gyson yn y 25% uchaf. Mae perfformiad disgyblion mwy abl ar lefel 5 hefyd wedi amrywio. Mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf yn ystod y cyfnod, gyda pherfformiad mewn Cymraeg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% uwch.

Lles: Rhagorol

Mae pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta ac yfed yn iach.

Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth yr holl ddisgyblion mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn ardderchog. Mae'r holl ddisgyblion yn hynod o gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Maent yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill yn y gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae disgyblion o bob oed yn cynnig cymorth a chyfeillgarwch i eraill yn gyson.

Mae agwedd disgyblion tuag at ddysgu yn rhagorol. Mae eu cyfraniad tuag at ymestyn eu diddordeb, eu hannibyniaeth a'u mwynhad ym mywyd a gwaith yr ysgol yn eithriadol. Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos gallu cynyddol i gyd-gynllunio ac i fynegi barn am yr hyn maent yn ei ddysgu. Mae'r disgyblion hyn yn dangos aeddfedrwydd arbennig wrth arfarnu'r hyn maent wedi ei gyflawni ac adnabod yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion yr ysgol yn gyson uchel. Bu'r presenoldeb yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae prydlondeb hefyd yn gyson dda.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn frwdfrydig iawn, ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn y gymuned ysgol. Maent yn chwarae rôl bwysig ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cydweithio'n arbennig o effeithiol gyda'r staff i sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel, iach a hapus. Mae llais y disgybl yn cael sylw haeddiannol ym mhob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol ac mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi ei gyflawni i wella eu hysgol. Maent hefyd yn cymryd rhan flaenllaw yn rheolaidd mewn gweithgareddau cymdeithasol yn yr ardal.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu effeithiol sy'n ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion ac yn ymateb yn llawn i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r athrawon o'r tair ysgol o fewn y bartneriaeth yn cyd-gynllunio'r themâu yn ofalus ac mae'r cynlluniau dysgu o ansawdd da ar draws yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau'r disgyblion ac yn ymateb yn effeithiol i anghenion yr ystod eang o oed a gallu o fewn dosbarthiadau. Rhoddir lle amlwg i farn a diddordebau'r disgyblion wrth gynllunio profiadau dysgu dychmygus ac ysgogol sy'n ennyn brwdfrydedd a mwynhad yr holl ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn cynllunio yn effeithiol ar gyfer datblygu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae cynllun gweithredu clir yn ei le ar gyfer datblygu'r fframwaith rhifedd a llythrennedd ac mae'r profiadau dysgu ar draws yr ysgol yn datblygu'r medrau hyn yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddatblygu'r iaith Gymraeg ac mae'r cynllunio yn dangos dilyniant a pharhad cadarn dros gyfnod sy'n datblygu dwyieithrwydd pob un o'r disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn cynnig profiadau buddiol ac amrywiol sy'n hyrwyddo a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o hanes, diwylliant, dathliadau a thraddodiadau Cymreig.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd ailgylchu a lleihau gwastraff. Mae'r cyngor eco yn weithgar ac effeithiol wrth godi ymwybyddiaeth disgyblion yr ysgol gyfan i fod yn gynaliadwy ac i ofalu am yr amgylchfyd. Er bod yr ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r byd ehangach trwy weithgareddau fel dathlu diwrnod rhyngwladol a chynnal gweithgareddau masnach deg, nid yw'r elfen dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei datblygu'n ddigon cyson drwy'r ysgol.

Addysgu: Da

Mae'r addysgu'n gyson effeithiol ar draws yr ysgol. Mae gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel a defnyddiant amrywiaeth dda o ddulliau dysgu a gweithgareddau diddorol i ennyn cyfranogiad a diddordeb yr holl ddisgyblion. Mae ganddynt ffocws clir ar atgyfnerthu'r medrau. Ar draws yr ysgol, mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm, ac maent yn esbonio cysyniadau newydd yn

glir. Maent yn cwestiynu'n dreiddgar er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Mae'r holl oedolion yn hyrwyddo Cymraeg cywir yn gyson.

Mae perthynas waith gadarnhaol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ymhob dosbarth. Gwna'r staff cymorth gyfraniad sylweddol at ansawdd dysgu disgyblion wrth gefnogi'r dysgu ar draws yr ysgol.

Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Maent wedi'u sefydlu'n llwyddiannus ar draws yr ysgol er mwyn cynnig cyfleoedd cyson i'r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae'r athrawon yn rhannu'r amcanion dysgu ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion yn fedrus. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn drylwyr gan roi sylwadau adeiladol ar sut i wella'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant. Mae hyn yn hynod o effeithiol wrth sicrhau bod disgyblion yn rhan allweddol o asesu eu gwaith eu hunain.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion gan gynnwys defnydd buddiol o brofion safonol ac asesiadau athrawon. Mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i osod targedau penodol ac i ddarparu tasgau priodol iddyn nhw er mwyn eu symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae trefniadau addas ar gyfer adrodd i rieni am gynnydd a chyflawniad eu plant. Mae adroddiadau disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn drylwyr a chynhwysfawr. Mae adroddiadau disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cynnwys gwybodaeth briodol am gyrhaeddiad ac ymroddiad disgyblion ond nid ydynt yn cwrdd yn llawn â'r gofynion adrodd.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae oedolion a disgyblion yn dangos parch tuag at ei gilydd. Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol sy'n annog unigolion i feithrin agweddau goddefgar er mwyn sicrhau bod disgyblion a staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol da iawn ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol y disgyblion. Caiff hyn ei gyflwyno mewn modd gofalgar trwy sesiynau amser cylch rheolaidd. Mae'r gwasanaethau addoli ar y cyd yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yr holl ddisgyblion.

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i sicrhau cefnogaeth fuddiol i'r disgyblion pan fo angen. Mae ymroddiad rhieni i hyrwyddo gweithgareddau allgyrsiol fel Campau'r Ddraig yn sicrhau cyfleoedd cyson a gwerthfawr i ddatblygu ffitrwydd yr holl ddisgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae adnabyddiaeth gynnar o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn sicrhau ymyrraeth a gofal cadarn i'r disgyblion hyn. Mae'r ysgol yn darparu

cynlluniau addysg unigol sy'n gosod targedau clir sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion. Caiff y rhain eu rhannu yn briodol gyda'r disgyblion a'r rhieni a'u hadolygu a'u monitro'n gyson.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r Ysgol Mynach yn ysgol hapus. Mae ethos cartrefol, cefnogol yr ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn cyflawni a chyd-dynnu'n dda. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymagweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb trwy ddysgu am fasnach deg a dathlu diwrnodau rhyngwladol.

Mae'r ysgol yn cynnig hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau allgyrsiol. Mae gan yr ysgol gynlluniau a pholisi effeithiol ar gyfer delio ag achosion o hiliaeth, ac mae polisi a chynllun hygyrchedd manwl yn weithredol.

Mae'r ysgol ar safle braf ac mae'r adeilad o ansawdd da. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda. Gwneir defnydd pwrpasol o bob rhan o'r adeilad ac o'r adnoddau awyr agored i gwrdd ag anghenion y Cyfnod Sylfaen. Mae arddangosfeydd lliwgar ym mhob rhan o'r ysgol sy'n dathlu gwaith y disgyblion ac yn creu awyrgylch dysgu ddeniadol. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau dysgu pwrpasol sydd mewn cyflwr da. Maent wedi'u storio'n drefnus, ac yn hylaw i'w defnyddio gan holl staff a disgyblion yr ysgol. Datblygwyd yr ardal allanol yn greadigol iawn gan ddatblygu syniadau'r disgyblion a chydweithio gyda phartneriaid yr ysgol i sicrhau ardaloedd dysgu a chwarae o safon uchel gan gynnwys y maes antur sy'n hybu ffitrwydd disgyblion yn effeithiol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae ganddi weledigaeth glir iawn yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles disgyblion. Mae'n llwyddo i arddel disgwyliadau uchel ymhlith y staff a'r disgyblion sy'n sicrhau bod pob agwedd o fywyd yr ysgol yn cael dylanwad clir a phositif ar y safonau a gyflawnir gan y disgyblion.

Mae systemau cyfathrebu effeithiol a rheolaeth arbennig ar amser yn sicrhau bod staff ar bob lefel yn cydweithio'n effeithiol iawn i sicrhau bod cymuned yr ysgol yn un drefnus ac wedi ei rheoli'n llwyddiannus iawn. Mae'r pennaeth a phenaethiaid cynorthwyol y tair ysgol sy'n rhan o'r bartneriaeth yn cydweithio'n effeithiol iawn fel cymuned ddysgu broffesiynol ymroddedig. Mae gan bob un rôl bendant yn natblygiad Ysgol Mynach sy'n cyfrannu'n eithriadol at welliannau. Mae'r ffocws ar godi safonau, drwy systemau rheoli grymus, yn glir ac yn sicrhau bod perfformiad yr ysgol yn cael ei herio'n gyson. O dan arweinyddiaeth arbennig y pennaeth, mae'r holl staff yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau gwelliannau pellach a datblygu gweithgareddau dysgu a dulliau addysgu newydd. O ganlyniad, mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa o brofiadau dysgu dychmygus ac ysgogol.

Gwneir defnydd arbennig o effeithiol o ddata perfformiad i ddadansoddi canlyniadau a thueddiadau ac i gynllunio ar gyfer gwella. Mae hyn yn galluogi athrawon i adnabod anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion yn drylwyr ac i gryfhau agweddau ar yr addysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cyfeiriad strategol i'r ysgol o fewn y bartneriaeth. Mae'r aelodau yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn effeithiol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, ac yn chwarae rôl briodol yn rheoli perfformiad y pennaeth. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddata perfformiad. O ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion y teulu, ac ysgolion tebyg, yn dda. Mae hyn oll yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad. Mae'r corff llywodraethol yn gwneud cyfraniad effeithiol at y broses hunanarfarnu.

Mae'r pennaeth yn arwain mentrau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus iawn er mwyn datblygu agweddau penodol ar fywyd yr ysgol. Cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae strategaeth llythrennedd yr ysgol yn sicrhau bod bron pob disgybl yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn medru trawsieithu'n effeithiol. Mae'r ysgol eisoes wedi ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gadarn i gynlluniau'r ysgol sy'n cael effaith gref ar y safonau uchel a gyflawnir gan ddisgyblion yn enwedig yn eu medrau ysgrifennu. Mae llais y plentyn yn cael lle blaenllaw iawn yn yr ysgol. Mae ymroddiad yr ysgol i sicrhau llwyddiant y bartneriaeth yn arloesol ac wedi ei rannu gydag ysgolion tebyg.

Gwella ansawdd: Da

Mae systemau hunanarfarnu wedi eu sefydlu'n gadarn ac yn effeithiol yng ngweithdrefnau'r ysgol. Mae diwylliant cryf o adolygu parhaus a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ganolog i ethos yr ysgol. Mae'r ysgol yn adnabod ei hun yn dda ac yn cynnwys staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn effeithiol yn y broses.

Mae'r broses hunanarfarnu yn drylwyr ac wedi ei seilio'n glir ar dystiolaeth o fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddiad manwl o ddata. Mae gweithio ar y cyd o fewn y bartneriaeth yn cryfhau'r broses yn effeithiol iawn. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddarlun cywir o gryfderau ac agweddau penodol i'w datblygu ymhellach. Fodd bynnag, mewn manau, mae tueddiad i'r adroddiad fod yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw bob amser yn cynnwys arfarniad digon clir o effaith y ddarpariaeth ar gyflawniad disgyblion.

Mae gan yr holl staff ymwybyddiaeth gadarn o ddata perfformiad sy'n eu galluogi i adnabod anghenion unigolion a charfanau o ddisgyblion. Caiff hyn ei fwydo'n llwyddiannus i mewn i gynllun gwella'r ysgol. Mae cyswllt agos rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n glir ar wella safonau ac wedi ei gostio'n ofalus. Mae'n cynnwys dangosyddion llwyddiant ac amserlenni priodol ar gyfer eu cwblhau. Mae'n nodi gyfrifoldeb staff yn glir.

Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau effeithiol iawn sy'n gwneud cyfraniad eithriadol at godi safonau a chefnogi lles bron pob disgybl.

Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn arbennig ac yn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r berthynas hon yn cael effaith bositif iawn ar safonau a lles disgyblion. Yn gyson, Mae'r staff yn ymgynghori yn gyson â'r rhieni ac wedi llwyddo yn effeithiol i'w cynnwys yn y broses o greu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol o fewn y bartneriaeth. Mae'r staff yn gweithio'n galed i'w cynnwys yn addysg eu plant. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r llyfryn rhifedd a rannwyd yn ddiweddar gyda'r rhieni i gryfhau eu dealltwriaeth o sut i gefnogi addysg rhifedd eu plant. Mae'r rhieni yn cyfrannu'n hael at goffrau'r ysgol a gwneir defnydd da iawn o'r cyllid ychwanegol er bydd y disgyblion. Mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol i'r ddarpariaeth tu allan sy'n cael dylanwad arwyddocaol ar les disgyblion.

Ceir cydweithio a chynllunio eithriadol rhwng yr ysgol a'r ddwy ysgol arall o fewn y bartneriaeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau dysgu ac addysgu. Mae'r ysgol yn flaenllaw yn y broses o gyd-gynllunio, yn ogystal â'r trefniadau i gyd-gymedroli a chyd-safoni asesiadau parhaus o fewn y bartneriaeth ac o fewn gweddill y clwstwr ysgolion lleol. Mae ymroddiad diflino'r pennaeth, y penaethiaid cynorthwyol a'r holl staff yn allweddol yn y broses. Mae hyn wedi arwain at godi safonau, yn enwedig wrth sicrhau profiadau dysgu dychmygus ac ysgogol sy'n hyrwyddo cyfraniad y disgyblion tuag at ymestyn eu diddordeb, eu hannibyniaeth a'u mwynhad ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae staff addysgu'n cyfnewid ag athrawon o fewn y bartneriaeth yn rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae partneriaeth fuddiol gyda'r cylch Ti a Fi lleol sy'n cwrdd yn yr ysgol. Mae hyn yn hwyluso mynediad disgyblion newydd i'r ysgol ac yn atgyfnerthu'r berthynas â'u rhieni. Mae rhaglenni pontio effeithiol yn bodoli i sicrhau bod disgyblion yn parhau â'u cynnydd o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2 ac yna o flwyddyn 6 i'r ysgol uwchradd lleol. Mae'r cydweithio agos, a pherthynas waith y staff, yn un effeithiol tu hwnt ac yn dylanwadu'n gryf ar safonau'r disgyblion ac ar y broses o gyfnewid arferion addysgu da.

Mae cysylltiadau niferus iawn â'r gymuned lleol ac mae hyn yn cael dylanwad helaeth ar brofiadau dysgu'r disgyblion a'u hymwybyddiaeth o'u cymuned a phwysigrwydd cyfrannu iddi. Nodwedd arbennig yw'r bartneriaeth arloesol gyda darparwr lleol i hyrwyddo cyfraniad disgyblion yng nghynllun Dug Caeredin sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u hunan hyder. Mae partneriaeth effeithiol iawn hefyd â busnesau lleol wedi creu cyfleoedd eang i ddisgyblion ehangu medrau bywyd a dysgu am fyw mewn cymuned wledig.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu lwyddiannus. Mae wedi ei staffio'n effeithiol gan athrawon a staff cefnogi sydd â chymwysterau a phrofiad priodol. Mae ymrwymiad blaenllaw staff i lwyddiant y bartneriaeth yn sicrhau y gwneir defnydd llawn o arbenigedd staff y tair ysgol.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff. Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon. Defnyddia'r athrawon eu hamser digyswllt yn effeithiol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff. Sefydlwyd cymuned ddysgu broffesiynol fuddiol rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill y dalgylch i ddatblygu strategaethau cyfrifiaduron. Mae hyn wedi codi safonau medrau technoleg a chyfathrebu disgyblion.

Mae penderfyniadau gwariant yn ymwneud yn uniongyrchol â'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn monitro gwariant yn fanwl ac yn defnyddio dulliau rhagweithiol i sicrhau cyllid ychwanegol.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau ac fe ddefnyddir hwy yn effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae'r ysgol wedi prynu offer technoleg gwybodaeth yn ddiweddar sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Oherwydd bod y disgyblion yn cyflawni ac yn gwneud cynnydd da, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a all effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol o'i gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r nesaf.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu a Chymru. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y 25% uchaf yn ystod y cyfnod. Mae perfformiad disgyblion mwy abl yn neilliant 6 hefyd yn y 25% uchaf o blith ysgolion tebyg yn y ddau faes dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2013, mae'n uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ond yn is mewn Cymraeg. Dros gyfnod o bedair blynedd, o gymharu ag ysgolion tebyg mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn gyson yn y 25% uchaf.

Yn 2013, mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel uwch (lefel5) yn sylweddol uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu yn y pedwar pwnc. Dros bedair blynedd, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch mewn Saesneg a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf gyda pherfformiad mewn Cymraeg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% uwch.

Oherwydd bod carfanau bach iawn yn yr ysgol, nid yw'n bosibl dod i farn ystyrllon ar batrwm o dangyflawni gan grwpiau o ddisgyblion ar sail data cyrhaeddiad.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	15	15 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	15	15 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	15	15 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	15	15 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		98%	2%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	15	15 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	15	15 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	15	15 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	15	15 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	15	15 100%	0 0%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	15	15 100%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	15	14 93%	1 7%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	15	15 100%	0 0%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	28	22 79%	4 14%	2 7%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	28	23 82%	4 14%	1 4%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	28	25 89%	3 11%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	28	22 79%	4 14%	1 4%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	28	20 71%	7 25%	0 0%	0 0%	1	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		45%	46%	4%	1%		
Teaching is good.	28	22 79%	5 18%	1 4%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	28	21 75%	7 25%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		63%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	28	18 64%	7 25%	2 7%	1 4%	0	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		47%	40%	6%	1%		
Staff treat all children fairly and with respect.	28	24 86%	4 14%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		58%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	28	24 86%	4 14%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	36%	2%	0%		
My child is safe at school.	28	25 89%	3 11%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs.	28	20 71%	7 25%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		50%	34%	4%	1%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	28	20 71%	7 25%	1 4%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		49%	41%	8%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	28	25 89%	3 11%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	28	21 75%	7 25%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		44%	39%	7%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	28	20 71%	8 29%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		56%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	27	17 63%	8 30%	2 7%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		42%	34%	4%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	28	24 86%	4 14%	0 0%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	39%	5%	1%		
The school is well run.	28	24 86%	4 14%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		60%	33%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Goronwy Morris	Arolygydd Cofnodol
Owen Jenkins	Arolygydd Lleyg
Rhian Williams	Arolygydd Cymheiriaid
Joyce George	Enwebai

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.